Beilïaid

Os oes arnoch arian i rywun, un o'r ffyrdd y gall eich **credydwyr** geisio cael eu harian yn ôl yw mynd at y beilïaid. Rôl y beilïaid yw mynd â'ch nwyddau a'u gwerthu er mwyn talu eich credydwyr.

Mae'r rheolau ynglŷn â beilïaid yn gymhleth iawn ac mae'r hyn y gall beilïaid ei wneud yn gyfreithiol yn dibynnu ar y math o ddyled sydd gennych. Mae beilïaid yn cael eu defnyddio'n aml iawn pan fydd **ôl-ddyledion y dreth gyngor** neu os oes **gorchymyn llys** yn eich erbyn. Gallant hefyd gael eu defnyddio ar gyfer dirwyon nad ydych wedi'u talu, ôl-ddyledion cynhaliaeth plant, ôl-ddyledion rhent, ôl-ddyledion y dreth incwm a chosbau parcio (dirwyon).

Mae angen i'r beilïaid gael **gorchymyn llys** i gymryd eich nwyddau. Gwiriwch gyda'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth p'un ai y gall credydwyr fygwth anfon y beilïaid heb gymryd y camau cyfreithiol cywir.

Os ydych wedi cael rhybudd i ddweud bod y beilïaid yn dod i'ch eiddo chi i gymryd nwyddau, dylech gael cyngor gan eich canolfan Cyngor ar Bopeth **ar unwaith**. Peidiwch ag anwybyddu'r rhybudd. Mae'r beilïaid yn **codi tâl** am ddod i'ch eiddo a bydd eich dyled yn cynyddu os ydych yn eu hanwybyddu.

Oes rhaid i mi adael y beilïaid i mewn?

Yn gyffredinol, nid oes rhaid i chi adael y beilïaid i mewn ac nid ydynt yn gallu mynd i mewn i'ch eiddo trwy ddefnyddio grym. Fodd bynnag, maen nhw'n cael mynd i mewn i'ch eiddo heb eich caniatâd chi os allant gael mynediad heb dorri i mewn. Gelwir hyn yn **'cael mynediad yn heddychlon'** ac mae'n golygu mynd i mewn i'ch eiddo trwy ddrws heb ei gloi neu ffenestr agored.

Weithiau, **caniateir** beilïaid i dorri i mewn i'ch cartref. Er enghraifft, mewn rhai achosion mae beilïaid sy'n gweithio i'r llys ynadon yn medru defnyddio grym rhesymol i dorri i mewn i'ch cartref, os oes dirwyon gennych heb eu talu. Hefyd mewn rhai achosion, gall beilïaid, heb ganiatâd y llys, ddefnyddio grym i gael mynediad i eiddo masnachol os nad oes llety byw yn gysylltiedig ag ef.

Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai beilïaid yn cael caniatâd i dorri i mewn i eiddo mewn unrhyw achos arall. Os yw hyn yn digwydd, mynnwch gyngor cyfreithiol ar unwaith.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

A fyddan nhw'n mynd â phopeth?

Mae yna reolau ynglŷn â'r hyn y mae'r beilïaid yn medru ei gymryd oddi wrthych, ac, unwaith eto, mae'r rheolau hyn yn dibynnu, i ryw raddau, ar y math o ddyled sydd gennych. Er enghraifft, ar gyfer y rhan fwyaf o ddyledion, nid yw'r beilïaid yn cael mynd â dillad sylfaenol, dillad gwely, dodrefn sylfaenol a nwyddau sylfaenol y cartref. Mae'r hyn a olygir gan y term 'sylfaenol' yn amrywio ond fel arfer nid yw'n cynnwys pethau fel microdonnau a chwaraewyr DVD sy'n gallu cael eu cymryd yn hawdd. Mewn rhai amgylchiadau, gallai'r beilïaid glampio'ch car neu fynd â'ch car.

Ydyn nhw'n medru mynd â phethau sydd ddim yn eiddo i mi?

Unwaith eto, mae'r rheolau'n gymhleth iawn. Fel rheol gyffredinol, mae'r beilïaid ond yn medru mynd â nwyddau sy'n eiddo i'r person sydd mewn dyled, ond, maen nhw'n medru mynd â nwyddau sy'n eiddo ar y cyd i'r person sydd mewn dyled. Hefyd, fel rheol gyffredinol, gellir mynd â nwyddau o eiddo ble mae yna ôl-ddyledion rhent, nid oes gwahaniaeth pwy sy'n berchen ar y nwyddau. Cofiwch, mae yna lawer o eithriadau i'r rheol hon.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r beilïaid fynd â'r nwyddau?

Byddant yn cael eu gwerthu mewn ocsiwn. Bydd yr arian a geir yn talu ffioedd y beilïaid yn gyntaf a bydd y gweddill yn cael ei roi i'ch credydwyr. Cofiwch fod gwerth nwyddau ail law yn gallu bod yn isel iawn ac felly, yn dibynnu ar eich dyledion, gallech dal fod mewn dyled hyd yn oed os yw'r beilïaid wedi mynd â rhan fwyaf o'ch nwyddau.

A allaf drafod gyda'r beilïaid?

Mae hyn yn dibynnu. Weithiau mae'r beilïaid yn dweud bod yn rhaid i chi drafod yn uniongyrchol gyda'r credydwyr. Weithiau mae'n gallu bod yn anodd cael gafael ar y beilïaid.

Os yw'r beilïaid yn mynd i mewn i'ch cartref, efallai y bydd angen i chi lofnodi **'cytundeb meddiannau cerdded'**. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt greu rhestr o'r nwyddau y byddant yn eu cymryd os nad ydych yn talu o fewn yr amser a nodwyd yn y cytundeb neu os nad ydych yn talu rhandaliad. Fel arfer bydd yn rhaid talu ffi ddyddiol a ni allwch symud y nwyddau o'ch cartref. Efallai y bydd llofnodi cytundeb meddiannau cerdded yn rhoi rhagor o amser i chi ddod o hyd i arian i dalu'r ddyled, ond mae'n golygu y gallai'r beilïaid dorri i mewn i gymryd eich nwyddau os nad ydych yn cadw at y cytundeb.

Mae gan awdurdodau lleol sy'n casglu'r dreth gyngor godau ymarfer sy'n dweud wrth feilïaid i dderbyn ad-daliadau bychain iawn os ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Sut allaf gwyno am y beilïaid sy'n dod i'm cartref?

Mae yna reolau a pholisïau ynglŷn ag ymddygiad beilïaid. Er enghraifft, dylent eich trin yn deg. Nid oes hawl ganddynt eich bygwth na honni bod ganddynt fwy o bwerau cyfreithiol na'r hyn sydd wir ganddynt. Mae'n rhaid iddynt gymryd gofal arbennig wrth ddelio â phobl sy'n agored i niwed, er enghraifft, os ydych yn hen, anabl, yn ddifrifol o sâl neu'n ei chael hi'n anodd siarad, deall neu ddarllen Saesneg. Ni ddylai'r beilïaid wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich oed, hil, rhyw, anabledd, rhywioldeb, neu grefydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith hiliol, rywiaethol neu homoffobig.

Yn dibynnu ar y math o ddyled sydd gennych, efallai y gallwch gwyno:

- i'r person yr ydych mewn dyled iddo (**y credydwr**)
- i gorff proffesiynol y beilïaid. Mae yna sawl gorff proffesiynol gwahanol, yn dibynnu ar ba fath o gwmni ydyw. Felly gofynnwch i'r beilïaid a ydynt yn perthyn i gorff penodol ac am ei enw
- i'r llys
- i'r heddlu, os yw'r beilïaid yn cyflawni trosedd, er enghraifft, eich bygwth neu'n ymosod arnoch.

Os oes gennych resymau i gwyno am y beilïaid, dylech gael cyngor arbenigol. Peidiwch ag ofni gofyn am gymorth gyda beilïaid - mae'n broblem gyffredin iawn.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda'r daflen ffeithiau ar ddyled
- Methdaliad
- Delio â phobl yr ydych mewn dyled iddynt
- Y Daflen Gyllido
- Ôl-ddyledion y dreth gyngor

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.
Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 8 Mehefin 2009, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr